

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyd (Tynnu Cydnabyddiaeth Yn Ôl) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd (Tynnu Cydnabyddiaeth Yn Ôl) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021. Rwy'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

09 Chwefror 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Bwyd (Tynnu Cydnabyddiaeth Yn Ôl) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("yr Offeryn hwn") yn diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 (O.S.1998/141), Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018 (O.S. 2018/274), Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1341), a Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3087). Bydd yr Offeryn hwn yn dileu rhai esemptiadau yn y Rheoliadau a enwir wedi i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'n berthnasol mewn perthynas â Chymru yn unig.

Mae Rheoliad 2 hefyd yn diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 i ddarparu esemptiadau ychwanegol rhag y Rheoliadau hynny mewn perthynas ag allforion i drydydd gwledydd.

Mae rheoliadau 3, 5, 7 a 9 yn gwneud darpariaethau trosiannol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr Offeryn hwn wrth arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a) a (e), 26(1) a 48(1) Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Rhoddwyd y swyddogaethau hynny, a oedd yn arferadwy gan "y Gweinidogion" gynt, i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr oedd ar y pryd, gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenwyd ynghyd ag adran 40(3) Deddf 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 Atodlen 11 iddi (c. 32).

Gwneir yr Offeryn hwn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol. Daw'r Offeryn hwn i rym 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y cafodd ei osod.

4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

Amcanion y Dirprwy Weinidog wrth weithredu'r polisi hwn trwy ddeddfwriaeth yw sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Gwlad a Ffefrir Fwyaf Sefydliad Masnach y Byd (WTO) wedi i'r DU ymadael â'r UE, Hefyd, er mwyn darparu i fusnesau gyfnod addasu trosiannol a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022, i wneud unrhyw newidiadau o ran labelu neu gyfansoddiad cynhyrchion bwyd, fel y bo'n angenrheidiol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn diwygio deddfwriaeth ddomestig benodol mewn perthynas â Chymru, gan ddileu neu newid y cymalau cydnabyddiaeth gilyddol a oedd yn caniatáu i gynhyrchion bwyd sy'n cael eu cynhyrchu a'u gwerthu'n gyfreithlon yn Aelod-wladwriaethau'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu Weriniaeth Twrci, gael eu gwerthu yn y DU, hyd yn oed os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion cyfraith y DU.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 i ddarparu esemptiadau ar gyfer bara neu flawd heb eu cyfnerthu a gynhyrchir yng Nghymru sydd i'w hallforio i drydedd wlad, ac i flawd heb ei gyfnerthu gael ei gynhyrchu yng Nghymru neu ei fewnforio i Gymru, ar yr amod ei fod i'w ddefnyddio mewn bwyd sydd i'w allforio i drydedd wlad yn unig.

Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau nad yw busnesau Cymru yn dioddef o gystadlu annheg, trwy ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion a fewnforir gydymffurfio â deddfwriaeth Cymru. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i flawd heb ei gyfnerthu gael ei gynhyrchu yng Nghymru, neu ei fewnforio, a'i werthu ar yr amod bod y blawd neu'r cynhyrchion a wneir ohono yn cael eu hallforio i drydydd gwledydd neu fod y blawd heb ei gyfnerthu yn cael ei ymgorffori mewn bwydydd gan wneuthurwyr bwyd eraill, sydd wedyn yn cael eu hallforio i drydydd gwledydd.

Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar fusnesau bwyd, defnyddwyr ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae yna risg y bydd Aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd yn herio o dan Reolau Gwlad a Ffefrir os na wneir yr is-ddeddfwriaeth hon. Yn ogystal, bydd busnesau bwyd yng Nghymru yn parhau i ddiodeff cystadlu annheg gan gynhyrchion a fewnforir nad ydynt o bosib yn bodloni gofynion deddfwriaeth ddomestig Cymru.

Nid oes unrhyw effeithiau ar rannau difreintiedig neu eithriedig o'r gymdeithas.

Bydd y ddeddfwriaeth yn berthnasol mewn perthynas â Chymru yn unig.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod yn cyfrifo'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ffefrir i fusnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn ôl rhagdybiaethau'r 'sefyllfa waethaf' neu'r sefyllfa fwyaf costus. Hyd yn oed pe bai'r achosion mwyaf pesimistaidd yn codi, amcangyfrifir bod baich y newidiadau ar y partion yr effeithir arnynt yn fach ac yn sicr yn llai na chost cosbau sy'n

gysylltiedig ag unrhyw her gan Sefydliad Masnach y Byd. Disgwylir buddion ychwanegol trwy ddileu cystadlu artiffisial/annheg gan fewnforion yr AEE/Twrci, a gallai fod buddion iechyd ychwanegol i boblogaeth Cymru hefyd, trwy sicrhau mai dim ond cynhyrchion sy'n bodloni safonau'r DU sydd ar werth yng Nghymru, gan gynnwys blawd wedi'i gyfnerthu a chynhyrchion blawd.

5. Ymgynghoriad

Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ("ASB") ymgynghoriad 8 wythnos ar y cynigion hyn rhwng 2 Medi a 28 Hydref 2021. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan yr ASB ac fe'i cyflwynwyd i sylw rhanddeiliaid â buddiant, gan gynnwys busnesau bwyd, cymdeithasau masnach, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Cafwyd dau ymateb i'r ymgynghoriad, a'r ddau ohonynt yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i gydnabyddiaeth gilyddol a diwygio Rheoliadau Bara a Blawd 1998 i ganiatáu defnyddio blawd heb ei gyfnerthu mewn cynhyrchion a fydd yn cael eu hallforio.

Dywedodd un o'r ymatebwyr i ymgynghoriad yr ASB eu bod yn teimlo bod y cyfnod addasu trosiannol, yn enwedig ar gyfer y newidiadau i Reoliadau Bara a Blawd 1998, yn rhy fyr. Cydlynwyd diwedd y cyfnod addasu trosiannol rhwng yr ASB, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Safonau Bwyd yr Alban fel ei fod yn dod i ben ar yr un dyddiad. Bydd busnesau sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr wedi bod yn ymwybodol o'r cynigion trwy ymgynghoriad cynharach Defra ar yr un pwnc. Felly mae'r ASB yn teimlo y dylai'r dyddiad diwedd cyfnod aros yr un fath â'r dyddiad yr ymgynghorwyd arno, ac na fydd busnesau yng Nghymru dan anfantais oherwydd y cyfnod addasu byrrach, gan y bydd yn dal i roi digon o amser i wneud unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael trwy:

[Ymgynghoriad ar y Diwygiad Arfaethedig i'r Cymalau Cydnabyddiaeth Gilyddol mewn Deddfwriaeth Bwyd Domestig benodol yng Nghymru | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd \(Saesneg yn unig\)](#)

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol i amcangyfrif lefel y mewnforion yr effeithir arnynt gan y rheoliadau, lle mae data ar gael; hynny yw, lefel mewnforion y cynhyrchion o dan yr enwau neilltuedig penodol a gafwyd o'r gwledydd penodol, a chyfran y rheiny nad ydynt, o bosib, yn bodloni safonau cyfansoddiad bwyd Cymru.

Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys cyfuniad o dystiolaeth anecdotaidd gan arbenigwyr polisi yn y maes, ymgysylltu â'r diwydiant, data masnach Cyllid a

Thollau EM¹ ac arolwg Defra ar 'ddiffyg cydymffurfiaeth' cynhyrchion sy'n cynnwys cig. Er gwaethaf i'r oll o'r uchod gael ei ddefnyddio lle bo ar gael, mae bylchau tystiolaeth o hyd mewn manau, a gwneir rhagdybiaethau yn yr achosion hynny i gynhyrchu costau ariannol.

Mewn llawer o achosion, ni ellir amcangyfrif union lefel y fasnach nad yw'n cydymffurfio, a bydd y costau cysylltiedig i fusnesau Cymru yn gymesur â lefel y mewforion perthnasol. Fodd bynnag, o ystyried data Defra ar faint cyfartalog yr elw ar gyfer y 30 cyfanwerthwr bwyd a diod mwyaf yn y DU, mae maint yr elw ar gyfer mewforwyr y DU (cyfanwerthwyr) yn isel (sef 2.3% ar gyfartaledd)². Mae hyn yn awgrymu bod y referniw cyffredinol a allai fod yn y fantol i fusnesau Cymru yn gyfyngedig.

Isod ceir dadansoddiad manwl ar gyfer pob categori cynnyrch mewn perthynas â'r dewis a ffeirir. Disgwylir y bydd baich y newidiadau rheoliadol ar fusnesau, awdurdodau lleol a defnyddwyr yn isel. O ganlyniad, ni chyflwynir costau ariannol ar gyfer y dewisiadau eraill a ystyrir. Yn lle hynny, mae'r costau a'r buddion yn cael eu hasesu'n ansoddol.

Er bod y costau sy'n gysylltiedig â'r ymyriad polisi wedi'u meintioli lle bo hynny'n bosibl, mae'r buddion wedi'u hasesu'n ansoddol. Mae'n anodd iawn meintioli budd osgoi cosbau Sefydliad Masnach y Byd, oherwydd gall y cosbau a osodir amrywio'n fawr gan ddibynnu ar faint a natur y methiant ymddangosiadol i gydymffurfio. Fodd bynnag, maent yn anelu, o fwriad, at fod yn ddigon sylweddol i atal aelodau rhag parhau i beidio â chydymffurfio â'r rheolau perthnasol, a byddant bron yn sicr yn llawer uwch na chostau cydymffurfio.

6. Dewisiadau

Yn yr asesiad hwn, rydym yn ystyried effaith tri dewis mewn perthynas â deddfwriaeth safonau cyfansoddiad bwyd. Ar gyfer y dewis a ffeirir (ac ar gyfer pob un o'r pedwar math o gynnyrch), ystyrir costau naill ai yn y sefyllfa "waethaf posib"/fwyaf costus neu fwyaf realistig, gan ddibynnu ar lefel y data sydd ar gael i'w dadansoddi ym mhob achos. Nodir y dewisiadau isod, tra y gellir dod o hyd i'r rhagdybiaethau a'r cyfrifiadau sy'n sail i'r amrywiol amcangyfrifon cost yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Dewis 0: Gwneud dim.

Os na chymerir unrhyw gamau rheoleiddio, bydd esemptiadau ar gyfer rhai safonau cyfansoddiad bwyd domestig yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer gwledydd penodol yr AEE a Thwrci. Gallai hyn arwain at anghydfod masnachol ag aelodau eraill Sefydliad Masnach y Byd a allai o bosib arwain at gosbau. Er bod natur y cosbau y gellir eu rhoi yn amrywio gan ddibynnu ar raddau a natur y methiant ymddangosiadol i gydymffurfio, eu nod, o fwriad, yw cyflwyno bygythiad digon sylweddol i atal aelod-wledydd Sefydliad Masnach y Byd rhag parhau i fethu â chydymffurfio â'r rheolau perthnasol. Am y rheswm hwn, nid

¹ Data masnach y DU gan Gyllid a Thollau EM, 2021: <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/ots-custom-table/>

² Wedi'i gasglu o [Dŷ'r Cwmnïau](#) a [chronfa ddata FAME](#)

yw'r dewis hwn wedi'i gynnwys i'w ddadansoddi ymhellach, gan fod y costau posib yn ddigon uchel fel nad ystyrir bod y dewis yn gredadwy.

Cafwyd sawl enghraifft o anghydfodau masnach yn Sefydliad Masnach y Byd a oedd yn cynnwys cosbau sylweddol yn cael eu rhoi ar wledydd 'nad ydynt yn cydymffurfio'. Er enghraifft, roedd yr Unol Daleithiau wedi gwneud cwyn yn erbyn yr UE gan ddadlau ei bod yn rhoi mynediad arbennig i'r farchnad i gynhyrchwyr bananas o gyn-drefedigaethau yn y Caribî³. Yn ystod yr anghydfod hwn, gosododd yr UD ddyletswyddau mewnfurio dialgar (*retaliatory*) o 100% ar ystod o gynhyrchion Ewropeaidd, o gashmir yr Alban i gaws o Ffrainc.

Dewis 1 (a ffefrir): Tynnu'r cymalau cydnabyddiaeth, gyda darpariaeth ychwanegol ar gyfer blawd heb ei gyfnerthu

Y dewis a ffefrir yw cael gwared ar y cymalau cydnabod a chynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud blawd heb ei gyfnerthu yng Nghymru, neu ei fewnfurio i Gymru, ar yr amod ei fod yn cael ei allforio yn uniongyrchol, neu yn cael ei ddefnyddio fel cynhwysyn mewn cynnyrch sydd i'w allforio.

Byddai cael gwared ar y cymalau cydnabod yn golygu y byddai'n rhaid i unrhyw fewnfurion yn y dyfodol a gwmpesir gan y cymalau hynny fodloni ein safonau cyfansoddiad bwyd domestig uwch (heblaw am unrhyw flawd a ddefnyddir mewn cynhyrchion a fydd yn cael eu hallforio). Felly, mae tri dewis i bob pwrpas yn wynebu allforwyr yr AEE/Twrci: 1) dim ond allforio cynhyrchion sy'n cydymffurfio â'n safonau 2) marchnata cynhyrchion o dan enwau gwahanol, anneilltuedig (Jam a Chynhyrchion sy'n Cynnwys Cig) neu 3) rhoi'r gorau i allforio'r cynhyrchion yn gyfan gwbl.

Pa ddewis bynnag a ddewisir, byddai cydymffurfiaeth â rheolau Gwlad a Ffefrir Sefydliad Masnach y Byd yn cael ei chyflawni ac felly byddai'r risg o roi cosbau ar y DU yn cael ei dileu. Mae yna rai costau i fewnforwyr, ond mae'r rhain yn llawer llai na'r risg posib o gosbau, fel sy'n wir yn achos y dewis "gwneud dim". Mae'r dewis hwn hefyd yn lleihau yn sylweddol gystadlu "artiffisial"⁴ i fusnesau'r DU gan drydydd gwledydd sydd â safonau cyfansoddiad bwyd is – fel cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio o fwy na 30 gwlad, y gellir eu gwerthu yn gyfreithlon ar hyn o bryd ar ein marchnad.

Gallai hefyd fod rhai costau i ddefnyddwyr os na allant ddod o hyd i rai cynhyrchion ac os na allant ddod o hyd i ddewisiadau amgen addas. Mae'n

³ Gweler [y ddolen hon](#).

⁴ Hynny yw, yn seiliedig ar safonau cyfansoddiad bwyd yn unig, gyda phob ffactorau arall yn aros yn gyfartal

debygol y bydd dewisiadau amgen addas ar gael, o ystyried y cynhyrchion sydd o fewn cwrpas y newid rheoliadol hwn. Fodd bynnag, gallai fod rhaid i ddefnyddwyr dalu mwy am nwyddau amgen, ond bod y nwyddau hynny yn bodloni safon uwch na'r rheiny a brynwyd o'r blaen.

Yn ogystal, byddai cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer blawd heb ei gyfnerthu yn y ddeddfwriaeth ddiwygio yn cynnal mynediad gwneuthurwyr bwyd o Gymru at flawd heb ei gyfnerthu, ac yn galluogi cyfleoedd masnachol newydd i felinwyr o Gymru, a fyddai'n gallu cynhyrchu blawd heb ei gyfnerthu am y tro cyntaf (ar yr amod bod y blawd neu'r cynnyrch a grëir ohono yn cael ei allforio wedi hynny). Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn nodi y gall busnesau bwyd Cymru fewnforio blawd heb ei gyfnerthu ond na allant ei gynhyrchu yng Nghymru.

Fodd bynnag, er y bydd y ddarpariaeth ar gyfer blawd heb ei gyfnerthu yn dal i ganiatáu i weithgynhyrchwyr gynhyrchu cynhyrchion ar gyfer y farchnad allforio, bydd y newid rheoliadol hwn yn golygu nad yw gweithgynhyrchwyr bellach yn gallu cynhyrchu'r un cynnyrch ar gyfer y farchnad allforio a'r farchnad ddomestig gan ddefnyddio blawd heb ei gyfnerthu. O'r herwydd, gallai fod rhaid i unrhyw weithgynhyrchwyr yr effeithir arnynt fynd i gostau ychwanegol i addasu eu prosesau cynhyrchu er mwyn defnyddio dau fath gwahanol o flawd.

Er bod hyn, heb os, yn risg i fusnesau bwyd yng Nghymru nawr ac wrth symud ymlaen, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn broblem ar hyn o bryd.

Er y gall y DU gynhyrchu digon o flawd i ddiwallu anghenion domestig, mae rhywfaint o flawd yn cael ei fewnforio, yn aml ar sail ei darddiad (er enghraifft blawd o Ffrainc i wneud bara Ffrengig). O dan y newidiadau arfaethedig, bydd angen i'r blawd hwn naill ai gael ei gyfnerthu neu ei gaffael yn ddomestig (gan roi'r gorau i'r agwedd darddiadol), a fydd yn arwain at gost ychwanegol fach.

Gan taw hwn yw'r dewis a ffefrir, nodir amcangyfrifon cost manwl ynghyd â'r fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Dewis 2: Ymestyn cydnabyddiaeth gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd

Dewis arall yw ymestyn y cymalau cydnabyddiaeth gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd. Byddai hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Sefydliad Masnach y Byd ond hefyd yn caniatáu i fwyd â safonau cyfansoddiad is lifo i'r DU. Gallai hyn arwain at ostyngiad mewn buddion iechyd i boblogaeth y DU (er enghraifft, o gynhyrchion blawd heb eu cyfnerthu) a chyflwyno cystadlu artiffisial i fusnesau'r DU gan drydydd gwledydd sydd â safonau cyfansoddiad bwyd is.

7. Costau a buddion

Dewis 1 (a ffefrir): Tynnu'r cymalau cydnabyddiaeth, gyda darpariaeth ychwanegol ar gyfer blawd heb ei gyfnerthu

Crynodeb o'r costau a'r buddion

Costau

Mae yna ddau fath o gostau yr ydym yn disgwyl i'r prif grwpiau yr effeithir arnynt fynd iddynt o dan y dewis polisi hwn: costau masnach a chostau ymgyfarwyddo. Crynhoir yr amcangyfrifon cost unigol (sy'n aml yn seiliedig ar ragdybiaethau'r "sefyllfa waethaf") isod.

Costau masnach – effeithiau aml-flwyddyn, wedi'u modelu dros 10 mlynedd⁵:

- Cynhyrchion sy'n cynnwys cig – £13,000 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o £111,000)
- Brasterau Taenadwy – £200 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o £1,900)
- Ceuledau a Briwffrwyth – £200 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o £1,900)
- Cynhyrchion Bara a Blawd – £2,500 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o £21,500)

Costau ymgyfarwyddo yn y flwyddyn gyntaf:

- Cynhyrchion sy'n cynnwys cig – £28,000
- Brasterau Taenadwy – £10,900
- Ceuledau a Briwffrwyth – £21,000
- Cynhyrchion Bara a Blawd – £6,600
- Awdurdodau lleol (fel cyrff gorfodi) – £700.

Cyfanswm y costau ariannol gostyngedig, dros gyfnod gwerthuso 10 mlynedd yn ôl prisiau 2020: £204,000.

Gallai fod cost i ddefnyddwyr hefyd os nad yw rhai cynhyrchion ar gael i'w prynu o dan y rheoliadau newydd, ac os na allant ddod o hyd i ddewisiadau amgen addas. Fodd bynnag, oherwydd natur y newid a'r cynhyrchion dan sylw, mae'r risg hon (a'r gost gysylltiedig) yn debygol o fod yn isel. Fodd bynnag, gallai fod rhaid i ddefnyddwyr dalu mwy am unrhyw nwyddau amgen, ond bod y nwyddau hynny yn bodloni safon uwch na'r rheiny a brynwyd o'r blaen. Gallai defnyddwyr hefyd brofi cynnydd mewn prisiau os yw allforwyr yn dewis cydymffurfio â'n safonau ychwanegol a throsglwyddo'r costau sy'n deillio o hynny i ddefnyddwyr.

Buddion

Byddai'r dewis hwn yn cydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd ac felly'n dileu'r risg y byddai cosbau masnach yn cael eu rhoi ar y DU. Fel y cyfeiriwyd ato uchod, nid yw'n bosib dweud ymlaen llaw pa fath o gosbau a fyddai wedi cael eu rhoi ar waith, felly ni fu unrhyw ymdrech i foneteiddio'r budd hwn. Fodd bynnag, mae'n debygol, o fwiad, y byddai'n fwy na chostau cydymffurfio.

⁵ Cyflwynir ffigurau ym mhrisiau 2020. Mae cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EM, sef 3.5%, wedi'i defnyddio drwyddi draw.

Byddai'n dileu cystadlu artiffisial/annheg gan fewnforion yr AEE/Twrci.

Gallai'r dewis hwn hefyd arwain at fuddion iechyd ychwanegol i boblogaeth Cymru, trwy ofyn taw dim ond cynhyrchion sy'n bodloni safonau'r DU sydd ar werth yng Nghymru, gan gynnwys blawd wedi'i gyfnerthu a chynhyrchion blawd.

Byddai'r dewis hwn yn cadw cyflenwad blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd yn y DU, ar yr un pryd â chreu cyfleoedd masnachol newydd i felinwyr Cymru ddechrau cynhyrchu blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer rhai marchnadoedd.

Nodir asesiad manwl o'r costau a'r buddion isod.

Costau

Dull

Mae'r prif gostau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ffeirir yn ymwneud â chostau masnach a chostau ymgyswrtio. Mae'r rhain yn gymesur â lefel fasnachu'r cynhyrchion hyn. Yn hyn o beth, mae data cyfyngedig ar gael ar gyfer rhai cynhyrchion.

Byddai cael gwared ar y cymalau cydnabyddiaeth gilyddol sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer mewnfurion cynhyrchion penodol o wledydd yr AEE a Thwrci yn cyflwyno penderfyniad i allforwyr yn y gwledydd hynny o ran cludo nwyddau i'r DU yn y dyfodol. Byddai bellach angen i unrhyw fewnfurion a gwmpesir gan y cymalau hynny fodloni ein safonau cyfansoddiad bwyd domestig uwch. Felly, mae tri dewis i bob pwrpas yn wynebu allforwyr yr AEE/Twrci: 1) dim ond allforio cynhyrchion sy'n cydymffurfio â'n safonau⁶ 2) marchnata cynhyrchion o dan enwau gwahanol, anneilltuedig (gan taw dim ond yn cynhyrchion hynny sy'n dwyn yr union enw neilltuedig sy'n gorfod bodloni'r safonau cyfansoddiad bwyd cysylltiedig) neu 3) rhoi'r gorau i allforio'r cynhyrchion yn gyfan gwbl. Mae pob un o'r dewisiadau hyn yn golygu costau gwahanol i allforwyr yr AEE/Twrci a mewnfurwyr y DU.

Mewn gwirionedd ac er gwaethaf defnyddio'r "sefyllfa waethaf", sef rhoi'r gorau i allforion yn gyfan gwbl, er mwyn pennu'r amcangyfrifon cost sy'n dilyn (yn bennaf oherwydd bylchau data a thystiolaeth), credwn taw'r ymateb mwyaf tebygol gan allforwyr yr AEE/Twrci fydd dewis cydymffurfio â'n safonau a pharhau i allforio i'r DU. Mae tystiolaeth gyfyngedig o gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd gan Defra gyda rhanddeiliaid y diwydiant yn 2016-2018, ynghyd â barn arbenigwyr polisi, yn awgrymu bod y costau sy'n gysylltiedig â bodloni ein safonau yn isel, yn aml, ac o'r herwydd y byddai'r rhan fwyaf o fusnesau, yn ôl pob tebyg, yn dewis y llwybr hwn yn hytrach na rhoi'r gorau i allforio'r cynhyrchion hynny i'r DU yn gyfan gwbl.

Mewn cyferbyniad, credwn fod y dewis i ailfrandio cynhyrchion yn debygol o fod yn amhoblogaidd, gan y gallai'r dewisiadau o ran gwneud hynny fod yn

⁶ Mae safonau cyfansoddiad bwyd yn gosod gofynion cyfansoddiadol sylfaenol ar gyfer nwyddau penodol, er enghraifft: Mêl, Jam, Cynhyrchion Sioced, Siwgrau, Coffi Parod, Dŵr Potel a Suddion Ffrwythau. Mae'r cyfreithiau hyn yn sicrhau bod safonau ansawdd sylfaenol yn cael eu cynnal, yn rhoi chwarae teg i'r diwydiant, ac yn diogelu defnyddwyr rhag amnewid am gynnyrch o ansawdd is. Mae rhagor o fanylion ar gael ar y dudalen Gov.uk ar gyfer safonau cyfansoddiad bwyd.

gyfyngedig ar gyfer rhai o'r cynhyrchion yr effeithir arnynt os ydynt am gadw eu marchnadoedd cyfredol. Er enghraifft, bydd defnyddiwr yn llawer mwy cyfarwydd â "byrgyr" na "phati cig." Os yw ail-frandio yn ddichonol, byddai'r dewis hwn yn golygu ail-labelu costau i allforwyr yr AEE/Twrci, a allai gael eu trosglwyddo wedyn i fewnforwyr y DU i ryw raddau. Mae adroddiad a gomisiynwyd gan Defra⁷ yn amcangyfrif costau ail-labelu cyfartalog rhwng £1,5000 a £5,000 fesul uned cadw stoc.

Ystyrir taw y "sefyllfa waethaf" o ran costau i fewnforwyr y DU yw'r sefyllfa 'rhoi'r gorau i fasnachu', a'r sefyllfa hon sy'n cael ei hystyried ar gyfer llawer o'r dadansoddiad sy'n dilyn. Os yw unrhyw un o'r ddau ddewis arall yn fwy proffidiol i allforwyr yr AEE/Twrci, yna byddant yn dewis parhau i fasnachu a bydd y costau i fewnforwyr y DU yn is.

Yn ogystal, yn y 'sefyllfa waethaf' lle mae allforwyr yr AEE/Twrci yn dewis rhoi'r gorau i allforio'r cynhyrchion hynny, bydd gan fewnforwyr y DU eu hunain sawl opsiwn i liniaru'r effaith bosib:

- Amnewid am fewnforion o wledydd eraill – byddai hyn yn lleihau neu ddileu'r gostyngiad mewn refeniw i fewnforwyr y DU.
- Amnewid am gynhyrchu domestig – byddai hyn yn lleihau neu ddileu unrhyw ostyngiadau posib mewn refeniw i fewnforwyr y DU, a byddai hefyd yn cynyddu refeniw cynhyrchwyr domestig yn y DU.
- Disbyddu stociau cyfredol – mae hyn yn debygol o fod yn ddewis tymor byr yn unig.

Felly dylid edrych ar lawer o'r amcangyfrifon cost manwl fesul cynnyrch sy'n dilyn – sy'n tybio bod allforwyr yr AEE/Twrci yn dewis rhoi'r gorau i allforio i'r DU ac nad oes dewisiadau lliniaru effeithiol (fel yr amlinellir uchod) ar gael i fewnforwyr domestig – fel y sefyllfa waethaf.

Cynhyrchion sy'n cynnwys cig

Mae'r cymal cydnabyddiaeth hwn yn cynnwys y categorïau canlynol:

- Byrgyr
- Byrgyr Rhatach
- Hambyrgyr
- X wedi'i dorri (lle bo X yn enw cig/math o gig)
- Torth Gig X
- Cig X Corn
- Pei Gig, Pei Helgig
- Pei'r Alban, neu Bei Albanaidd
- Pastai, Pastai 'Bridie', Rhol Selsig
- Selsig, chipolata neu gig selsig
- Pei neu bwddin – lle mae 'cig/cig wedi'i halltu' yn ei ragflaenu neu'n dod ar ei ôl yn uniongyrchol

Er mwyn i unrhyw gynnyrch gael ei effeithio gan y rheoliadau hynny, mae angen i enw'r cynnyrch a fasnechir fod yn union fel y'i nodir yn y rheoliad. Er

⁷ Mae'n dwyn y teitl "Developing a Framework for Assessing the Costs of Labelling Changes in the UK" ac mae ar gael fan hyn: labelu-newidiadau.pdf (nationalarchives.gov.uk)

enghraifft, byddai “X wedi'r Dorri” yn berthnasol i unrhyw gynnyrch sy'n cael ei farchnata fel “Cyw lâr wedi'i Dorri” ond nid ‘Brest Cyw lâr”.

Nid oes data masnach ar gyfer enwau cynnyrch penodol o'r fath ar gael. Fodd bynnag, disgwylir i'r penodolrwydd a gynhwysir yn yr enwau neilltuedig hynny fod yn ffactor sy'n cyfyngu ar swm y fasnach gysylltiedig.

Mae tystiolaeth anecdotaidd arbenigol y diwydiant a pholisi yn awgrymu taw'r prif gynhyrchion y mae'r cymal cydnabyddiaeth yn effeithio arnynt yw selsig ac, i raddau llai, fyrgyrs.

Ar hyn o bryd mae Defra wedi cynnal arolwg drafft, sydd heb ei gyhoeddi, ar Gynhyrchion sy'n Cynnwys Cig (sy'n edrych ar gydymffurfiaeth â'r safonau cynnwys cig lleiaf) i asesu lefel y diffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r prif gynhyrchion yr effeithir arnynt. Mae'r amcangyfrifon sy'n deillio o hyn yn seiliedig ar sampl gyfyngedig o 350 o gynhyrchion, a dylid eu dehongli'n ofalus.

Cynnyrch/enw neilltuedig	Cyfradd "diffyg cydymffurfio" ar gyfer mewforion o'r UE
Selsig	20%
Rholiau selsig	0%
Byrgyrs	18%
Peis cig	0%

Gellir defnyddio'r rhain i gynhyrchu amcangyfrif ‘sefyllfa waethaf’ ar gyfer y costau posib i fusnesau'r DU.

Yr unig gategori cynnyrch y mae data olrhain Cyllid a Thollau EM⁸ ar gael ar ei gyfer yw selsig, ac enw dosbarthiad masnach mwyaf priodol Cyllid a Thollau EM yn hyn o beth yw “Selsig a chynhyrchion cysylltiedig”. Mae mewforion cyffredinol y dosbarthiad masnach hwn i'r DU, yn ôl data masnach Cyllid a Thollau EM, ar gyfartaledd oddeutu £20 miliwn dros y degawd diwethaf (yn ôl prisiau 2020). Gan dybio y byddai masnach i Gymru yn gymesur â chyfran Cymru o boblogaeth y DU (4.7%), byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £936,000 y flwyddyn.

Os cymerwn gyfradd ddiffyg cydymffurfio o 20%, er enghraifft (wedi'i chymryd o'r uchod), bydd hyn yn cyfateb i amcangyfrif o oddeutu £187,000 o fewforion “selsig a chynhyrchion cysylltiedig” nad ydynt yn cydymffurfio.

Y 'sefyllfa waethaf' fyddai i'r fasnach hon ddod i ben yn llwyr ac i fewnforwyr o Gymru yn gollir holl elw cysylltiedig. Gan gymryd taw 2.3% yw elw cyfartalog cyfanwerthwyr bwyd a diod Cymru (wedi'i gymryd o ddata Defra am feintiau elw cyfartalog y 30 cyfanwerthwr bwyd a diod mwyaf yn y DU⁹), byddai hyn yn cyfateb i golledion elw o £4,300 mewn perthynas â mewforion selsig.

⁸ Data masnach y DU gan Gyllid a Thollau EM, 2021: <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/ots-custom-table/>

⁹ Wedi'i gasglu o [Dŷ'r Cwmnïau](#) a [chronfa ddata FAME](#)

Nid oes data masnach tebyg ar gyfer byrgyrs i'w gael; fodd bynnag, credir bod y fasnach berthnasol yn is na selsig. Gan dybio lefel fasnach debyg i honno a geir ar gyfer selsig (a'r un gyfradd diffyg cydymffurfio, sef 20%: mymryn yn uwch nag yr awgrymir gan arolwg Defra), byddai costau 'sefyllfa waethaf' o oddeutu £4,300 yn berthnasol i fyrgyrs.

Yn ogystal, gallai fod rhai costau bach mewn perthynas â'r cynhyrchion cig eraill (y tu hwnt i selsig a byrgyrs)¹⁰ sy'n anodd eu hamcangyfrif o ystyried y diffyg data sydd ar gael. Ni ddisgwylir y bydd costau sy'n ymwneud â'r cynhyrchion hyn yn sylweddol gan 1) eu bod yn gynhyrchion mwy pwrpasol (er enghraifft, "Pei Helgig"), a 2) oherwydd mater yr enwau neilltuedig a amlygwyd ar ddechrau'r adran hon. O ystyried hyn, disgwylir taw'r sefyllfa waethaf bosib fyddai i'r costau fod yr un fath â'r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer selsig a byrgyrs, sef £4,300. Mae hyn yn creu cyfanswm costau masnach posib o tua £13,000 y flwyddyn (amcangyfrif gwerth presennol 10 mlynedd o £111,000).

O ran costau ymgyfarwyddo posib, cyfrifir y rhain trwy ystyried cyfraddau cyflog canolrifol fesul awr y rheiny sydd yng nghategori galwedigaethol 2462 *Gweithwyr proffesiynol sicrhau ansawdd a rheoleiddio* (ar gyfradd £22.16 yr awr, wedi'i chymryd o arolwg ASHE 2020¹¹), gan dybio bod angen dwy awr i bob gweithiwr ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyd at 640 o fusnesau gael eu heffeithio yng Nghymru, yn y diwydiannau canlynol¹²:

1011: Prosesu a chadw cig

1012 : Prosesu a chadw cig dofednod

1013 : Cynhyrchu cig a chynhyrchion cig dofednod

1085 : Gweithgynhyrchu prydau parod

4632 : Cyfanwerthu cig a chynhyrchion cig

4722 : Gwerthu cig a chynhyrchion cig mewn siopau arbenigol

4729 : Gwerthu bwyd arall mewn siopau arbenigol

Mae'r 640 o fusnesau'n adlewyrchu cyfanswm nifer y busnesau yng Nghymru ym mhob un o'r grwpiau diwydiant hyn. Mewn gwirionedd, bydd llai na'r nifer hwn yn cael eu heffeithio, gan fod y trefniadau arfaethedig yn effeithio ar gynhyrchion a fewnforir yn unig. Fodd bynnag, rydym wedi cymryd y ffigur llawn hwn i'w ddefnyddio yn y sefyllfa waethaf. Rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd angen i un person ym mhob sefydliad ymgyfarwyddo â'r newidiadau arfaethedig.

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod y costau i fewnforwyr Cymru o dan y dewis hwn a'r 'sefyllfa waethaf' a ddisgrifir uchod oddeutu £41,000 ym flwyddyn un –

¹⁰ Y cynhyrchion hyn yw X wedi'i Dorri (enw cig/math o gig yw X), Torth Gig X, Pei Gig, Pei Helgig, Cig X Corn, Pei'r Alban neu Bei Albanaid, Pastai, Pastai Bridie, Rhol Selsig, Pei neu Bwdin — wedi'u goleddfu â'r geiriau 'cig/cig wedi'i halltu' cyn neu ar ôl y gair nad yw'n enw cig.

¹¹ SYG, Enillion Gweithwyr yn y DU:

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2020>

¹² Cymerir yr holl rifau busnes o gyhoeddiad data Gweithgarwch, Maint a Lleoliad Busnesau, SYG:

<https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/ukbusinessactivitysizeandlocation>

mae £13,000 yn ymwneud â chostau masnach a £28,000 yn ymwneud â chostau ymgyfarwyddo.

Brasterau Taenadwy

Mae'r cymal cydnabyddiaeth sy'n berthnasol i frasterau taenadwy yn cyfeirio at fewnforion margarîn, menyn, taeniadau llaeth, menyn wedi'i ddadhydradu a ghee o Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

Mae data masnach Cyllid a Thollau EM yn dangos bod gwerth blynyddol cyfartalog mewnforion margarîn y DU o'r tair gwlad hon dros y deng mlynedd diwethaf oddeutu £199,000, yn ôl prisiau 2020.

Gan dybio y byddai masnach i Gymru yn gymesur â chyfran Cymru o boblogaeth y DU (4.7%), byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £9,400.

Disgwylir i'r gyfran o frasterau taenadwy a fewnforir nad ydynt yn bodloni'n safonau gofynnol fod yn ffracsiwn o'r fasnach a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, at ddibenion y dadansoddiad hwn, mae cymhwysu'r elw amcangyfrifedig o 2.3% at werth llawn y ffigur masnach o £9,400 yn cynhyrchu ffigur costau masnach posib, yn nhermau colledion elw, o oddeutu £200 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o £1,900) fel senario "sefyllfa waethaf".

O ran costau ymgyfarwyddo posib, megis uchod cyfrifir y rhain trwy ystyried cyfraddau cyflog canolrifol fesul awr y rheiny sydd yng nghategori galwedigaethol 2462 *Gweithwyr proffesiynol sicrhau ansawdd a rheoleiddio* (ar gyfradd £22.16 yr awr, wedi'i chymryd o arolwg ASHE 2020), gan dybio bod angen dwy awr i bob gweithiwr ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyd at 245 o fusnesau gael eu heffeithio, o'r diwydiannau canlynol:

4633 : Cyfanwerthu cynhyrchion llaeth; wyau ac olewau a brasterau bwytdwy

4729 : Gwerthu bwyd arall mewn siopau arbenigol

1042 : Gweithgynhyrchu margarîn a brasterau bwytdwy tebyg

Unwaith eto, mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif, ond defnyddir y ffigur llawn fel sefyllfa waethaf, gan dybio y bydd rhaid i un person ym mhob sefydliad ymgyfarwyddo â'r newidiadau.

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod y costau i fewnforwyr Cymru o dan y dewis hwn a'r 'sefyllfa waethaf' a ddisgrifir uchod oddeutu £11,100 ym mlwyddyn un – mae £200 yn ymwneud â chostau masnach a £10,900 yn ymwneud â chostau ymgyfarwyddo.

Ceuledau Ffrwythau a Briwffrwyth

Nid oes unrhyw ddata hysbys am fewnforion cynhyrchion ceuledau ffrwythau a briwffrwyth i'r DU. Mae mewnwediadau a gafwyd gan y diwydiant yn awgrymu bod symiau dibwys o'r cynhyrchion yn cael eu mewnforio. Ystyrir bod briwffrwyth mor draddodiadol Brydeinig fel na fyddai'n gwneud unrhyw synnwyr masnachol amlwg i wledydd yr UE geisio mynd i mewn i'r farchnad hon, ac nid ydynt wedi gwneud felly yn y gorffennol. Mewn perthynas â cheuledau, y farn gan y diwydiant yw y byddai allforwyr yn ceisio ailenwi cynhyrchion er mwyn addasu i'r safonau cyfansoddiad bwyd diweddaedig.

Er mwyn darparu rhai amcangyfrifon o ran yr effaith ar fewnforion posib yn absenoldeb data y gellir ei gyrchu, rydym wedi tybio ar gyfer y dadansoddiad hwn bod costau yr un fath â'r "sefyllfa waethaf" sydd wedi'i chymhwyso at frasterau taenadwy, gan na chredir bod y ddau fath o gategori yn cael eu masnachu mor eang â chynhyrchion cig a blawd, sef oddeutu £200 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o £1,900).

O ran costau ymgyfarwyddo posib, megis uchod, cyfrifir y rhain trwy ystyried cyfraddau cyflog canolrifol fesul awr y rheiny sydd yng nghategori galwedigaethol 2462 Gweithwyr proffesiynol sicrhau ansawdd a rheoleiddio (ar gyfradd £22.16 yr awr, wedi'i chymryd o arolwg ASHE 2020), gan dybio bod angen dwy awr i bob gweithiwr ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyd at 480 o fusnesau Cymru gael eu heffeithio, o'r diwydiannau canlynol:

1071: Gweithgynhyrchu bara; gweithgynhyrchu crystiau a chacennau ffres

1072: Gweithgynhyrchu rhysgiau a bisgedi; gweithgynhyrchu crystiau a chacennau cadw (*preserved*)

4724: Manwerthu bara; cacennau; danteithion blawd a danteithion siwgr mewn siopau arbenigol

4729: Gwerthu bwyd arall mewn siopau arbenigol

Fel uchod, mewn gwirionedd ni fydd pob un o'r 480 busnes yn cael eu heffeithio, ond cymerir bod y ffigur hwn yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf ac rydym yn tybio y bydd rhaid i un gweithiwr ym mhob sefydliad ymgyfarwyddo â'r newidiadau.

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod y costau i fewnforwyr Cymru o dan y dewis hwn a'r 'sefyllfa waethaf' a ddisgrifir uchod oddeutu £21,200 ym mlwyddyn un – mae £200 yn ymwneud â chostau masnach a £21,000 yn ymwneud â chostau ymgyfarwyddo.

Bara a Blawd

Mae'r cymal cydnabyddiaeth hwn yn cynnwys mewnfario blawd gwenith heb ei gyfnerthu o wledydd yr AEE. Fodd bynnag, mae darpariaeth arfaethedig wedi'i chynnwys yn y dewis hwn a fyddai'n dal i ganiatáu i fusnesau bwyd y DU gyrchu blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion sydd i'w hallforio, ac a fydd yn caniatáu i felinwyr blawd Cymru werthu blawd heb ei gyfnerthu i'w allforio.

Fodd bynnag, gallai busnesau sy'n gwasanaethu marchnadoedd domestig a rhyngwladol fynd i gostau cynhyrchu ychwanegol, wedi'u gyrru gan yr angen i addasu eu prosesau cynhyrchu i ddefnyddio dau fath gwahanol o flawd: blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer y farchnad allforio a blawd wedi'i gyfnerthu ar gyfer y farchnad ddomestig. Gallai busnesau hefyd ddewis cynhyrchu cynhyrchion sy'n cynnwys blawd heb ei gyfnerthu dramor.

Er bod hyn yn risg i fusnesau cynhyrchu bwyd nawr ac yn y dyfodol, nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd llawer o fusnesau yn cael eu heffeithio ar unwaith, os o gwbl. Er bod y Ffederasiwn Bwyd a Diod wedi tynnu sylw at hyn fel mater posib fel rhan o'u hymateb i'r ymgyngoriad, nid oeddent yn gallu dweud faint o'u haelodau a fyddai'n cael eu heffeithio. Nid amlygwyd y mater hwn gan unrhyw ymatebwyr eraill i'r ymgyngoriad.

Felly, er ein bod yn cydnabod hyn fel risg, credwn taw ychydig o fusnesau yng Nghymru a fydd yn cael eu heffeithio yn y tymor agos, os o gwbl.

Er y gall melinau'r DU ddarparu digon o flawd i fodloni gofynion domestig, mae rhywfaint o flawd yn cael ei fewnforio, yn aml ar oherwydd ei darddiad, gyda'r gyfran fwyaf o hwn yn dod o Ffrainc (*UK Flour Millers*).

Gan nad yw'r ddarpariaeth hon yn caniatáu defnyddio blawd heb ei gyfnerthu wrth gynhyrchu nwyddau ar gyfer y farchnad ddomestig, bydd angen i gynhyrchwyr ddod o hyd i flawd wedi'i gyfnerthu mât yn y DU (gan roi'r gorau i'r agwedd arbennig ar darddiad y blawd), neu bydd angen i allforwyr yr AEE cyfnerthu eu blawd yn ôl safonau'r DU.

Rydym yn ystyried sefyllfa lle mae allforwyr yr AEE yn dewis cyfnerthu'r blawd y maent yn ei anfon i Gymru, gan fod costau cyfnerthu blawd yn fychan iawn o'u cymharu â phris cyffredinol blawd.

Fe wnaeth tystiolaeth flaenorol gan Defra o Asesiad Effaith a gynhaliwyd yn 2013¹³, o ran a ddylid cadw cyfnerthu gorfodol, awgrymu bod cost cyfnerthu blawd oddeutu £0.71 fesul tonnell, sy'n cyfateb i £0.79 fesul tonnell yn ôl prisiau 2020. Er cyd-destun, mae'r SYG yn amcangyfrif bod tonnell o flawd yn y DU yn cael ei phrisio oddeutu £400 fesul tonnell ym mis Hydref 2021. Felly, mae'n annhebygol iawn y byddai allforiwr o'r AEE yn dewis rhoi'r gorau i allforio'n llwyr yn hytrach nag allforio blawd wedi'i gyfnerthu yn lle hynny. Mae'r amcangyfrifon cost isod yn canolbwyntio ar yr hyn y gallai costau cyfnerthu'r cyflenwadau blawd perthnasol fod, ac yn cymryd yn ganiataol bod yr holl gostau hyn yn cael eu trosglwyddo i fewnforwyr y DU yn y sefyllfa waethaf.

Yn ôl data Cyllid a Thollau EM, mae mewnforion blawd gwenith o wledydd yr AEE oddeutu £25 miliwn (neu 67,000 tonnell) yn flynyddol. Gan dybio y byddai masnach i Gymru yn gymesur â chyfran Cymru o boblogaeth gyfan y DU (4.7%), byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £1.2 miliwn (neu 3,200) y flwyddyn.

Mae'n annhebygol taw ar gyfer y farchnad ddomestig y byddai'r holl flawd hwn a fewnforir. Fodd bynnag, os cymerwn fod yr holl fewnforion blawd gwenith cyffredol hynny heb eu cyfnerthu ac wedi eu bwriadu ar gyfer Cymru – y ddwy dybiaeth “sefyllfa waethaf” – am gost o oddeutu £0.79 y tonnell (sef y £0.71 yn ôl prisiau 2013 wedi'u haddasu ar gyfer prisiau 2020, gyda chwyddiant, gan ddefnyddio mynegai CPIH y SYG), byddai hyn yn cyfateb i gostau o £2,500 y flwyddyn (gwerth presennol 10 mlynedd o oddeutu £21,500) sy'n gysylltiedig â'r 3,300 tonnell dan sylw.

O ran costau ymgyfarwyddo posib, megis uchod, cyfrifir y rhain trwy ystyried cyfraddau cyflog canolrifol fesul awr y rheiny sydd yng nghategori galwedigaethol 2462 *Gweithwyr proffesiynol sicrhau ansawdd a rheoleiddio* (ar gyfradd £22.16 yr awr, wedi'i chymryd o arolwg ASHE 2020), gan dybio bod angen dwy awr i bob gweithiwr ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyd at 150 o fusnesau Cymru gael eu heffeithio, o'r diwydiannau canlynol:

1061: Gweithgynhyrchu cynhyrchion melinau grawn

¹³ Darparwyd ffigurau ar gostau cyfnerthu blawd gan y diwydiant ac fe'u defnyddiwyd yn AE 2013 ar yr adolygiad o Reoliadau Bara a Blawd 1998. Gellir gweld y ffigurau perthnasol yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddus [hon](#) (t.13).

1071: Gweithgynhyrchu bara; gweithgynhyrchu crystiau a chacennau ffres

1072: Gweithgynhyrchu rhysgiau a bisgedi; gweithgynhyrchu crystiau a chacennau cadw

Mewn gwirionedd, mae nifer y busnesau yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn llawer is gan fod y trefniadau arfaethedig yn effeithio ar gynnyrch a fewnforir yn unig. Fodd bynnag, rydym wedi cymryd y ffigur llawn hwn i'w ddefnyddio yn y sefyllfa waethaf. Felly, disgwylir i gyfanswm y costau ymgyfarwyddo fod oddeutu £6,600 yn y flwyddyn gyntaf.

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod y costau o dan y dewis hwn yn y 'sefyllfa waethaf' a ddisgrifir uchod oddeutu £7,100 ym mlwyddyn un – mae £2,500 yn ymwneud â chostau masnach a £6,600 yn ymwneud â chostau ymgyfarwyddo.

Awdurdodau lleol

Fel sefydliadau gorfodi, bydd angen i awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd ymgyfarwyddo ag unrhyw newidiadau.

Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac fel y nodir uchod, rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd angen i un person o bob awdurdod lleol gymryd dwy awr i ymgyfarwyddo ag unrhyw newidiadau a wneir. Prisir y gost hon gan ddefnyddio'r gyfradd fesul awr sy'n gysylltiedig â galwedigaeth *3581 Arolygwyr safonau a rheoliadau* (ar gyfradd £15.71 yr awr, o arolwg ASHE 2020). Felly amcangyfrifir bod cyfanswm y costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol ym mlwyddyn un oddeutu £700. Disgwylir i unrhyw gostau arolygu ychwanegol fod yn ddibwys.

Ddefnyddwyr

Gallai defnyddwyr fod ar eu colled o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol hwn os na allant ddod o hyd i nwyddau y maent wedi mynd i'r arfer o'u prynu, ac os na allant ddod o hyd i ddewisiadau amgen addas. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol, o ystyried y lefel isel o ddiffyg cydymffurfio a'r math o gynhyrchion sydd dan sylw. Fodd bynnag, gallai fod rhaid i ddefnyddwyr dalu mwy am unrhyw nwyddau amgen, ond bod y nwyddau hynny yn bodloni safon uwch na'r rheiny a brynwyd o'r blaen.

Gallai defnyddwyr hefyd brofi cynnydd mewn prisiau os yw allforwyr yn dewis cydymffurfio â'n safonau ychwanegol a throsglwyddo'r costau sy'n deillio o hynny i ddefnyddwyr.

Buddion

Byddai'r dewis hwn yn cydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd ac felly'n dileu'r risg y byddai cosbau masnach yn cael eu rhoi ar y DU.

Byddai'n dileu cystadlu artiffisial/annheg gan fewnforion yr AEE/Twrci.

Gallai'r dewis hwn hefyd arwain at fuddion iechyd ychwanegol i boblogaeth Cymru, trwy sicrhau mai dim ond cynhyrchion sy'n bodloni safonau'r DU sydd ar werth yng Nghymru, gan gynnwys brawd a chynhyrchion brawd wedi'i gyfnerthu.

Byddai'r dewis hwn yn cadw cyflenwad brawd heb ei gyfnerthu ar gyfer gweithgynhyrchwyr brawd yn y DU, ar yr un pryd â chreu cyfleoedd masnachol

newydd i felinwyr Cymru ddechrau cynhyrchu blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer rhai marchnadoedd.

Dewis 2: Ymestyn cydnabyddiaeth gilyddol i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd

Costau

Byddai estyn y cymalau cydnabyddiaeth i holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd yn caniatáu mewnfario cynhyrchion â safonau cyfansoddiad bwyd is o holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd i'r DU.

Byddai hyn yn rhoi busnesau Cymru dan anfantais sylweddol, gan y byddai'n rhaid iddynt ddilyn rheoliadau na fyddai angen i fusnesau tramor sy'n mewnfario i Gymru eu dilyn. Byddai hyn yn golygu efallai na fydd gweithgynhyrchwyr Cymru yn gallu cynhyrchu nwyddau mor rhad â'r rheiny gan fusnesau tramor, a gallai eu cyfran o'r farchnad ostwng (gan effeithio'n negyddol ar ddiwydiant domestig).

Mae hefyd yn bosib y bydd gan rai trydydd wledydd nad ydynt yn rhan o'r AEE safonau cynnyrch is nag sy'n nodweddiadol ar gyfer gwledydd yr AEE, gan arwain, o bosib, at ostyngiad cronol mewn safonau pe bai eu cyfran o'r farchnad o ran gwerthiannau Cymru yn cynyddu.

Mae'n bosib y gallai fod 'ras i'r gwaelod' wrth i fusnesau tramor sydd wedi'u hesemptio o'r ddeddfwriaeth ostwng safonau yn barhaus er mwyn gostwng costau a phrisiau, gan ostwng ansawdd y cynhyrchion sydd ar gael i ddefnyddwyr. Gallai diffyg cyfnerthu ar flawd a chynhyrchion blawd gael effaith negyddol ar iechyd y wlad, a gallai hefyd arwain at ostyngiad bach yn hyder defnyddwyr os yw defnyddwyr o'r farn bod safonau cyfansoddiad bwyd yn gostwng.

Buddion

Byddai'r dewis hwn yn cydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd ac felly'n dileu'r risg y byddai cosbau masnach uchel yn cael eu rhoi ar y DU, ynghyd â chostau eraill sy'n gysylltiedig â difrod i enw da ac adnoddau'r Llywodraeth.

Byddai'n cadw masnach anghyfyngedig rhwng gwledydd y DU a'r AEE ar gyfer y cynhyrchion perthnasol yr effeithir arnynt, ac yn caniatáu i weithgynhyrchwyr gynhyrchu un cynnyrch gan ddefnyddio blawd heb ei gyfnerthu ar gyfer y farchnad ddomestig ac ar gyfer marchnadoedd allforio.

Byddai'n galluogi masnach rydd gyda holl wledydd Sefydliad Masnach y Byd ar gyfer y cynhyrchion a gwmpesir gan y rheoliadau hyn.

8. Asesu'r Gystadleuaeth

Mae asesiad cystadleuaeth wedi'i gynnal, isod. Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

Cwestiwn	Ateb
<i>C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?</i>	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
<i>C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% yn y farchnad?</i>	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
<i>C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran yn y farchnad sydd o leiaf 50%?</i>	Ni wyddys, annhebygol, nac oes.
<i>C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?</i>	Na fyddent.
<i>C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?</i>	Nac yw.
<i>C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau ymsefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar-gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?</i>	Na fyddai.
<i>C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar-gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?</i>	Na fyddai.
<i>C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodweddiadol o'r sector?</i>	Nac yw.
<i>C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?</i>	Byddai.

9. Adolygiad ôl-weithredu

Ni fydd effaith y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu na'i monitro.

Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y bydd baich y ddeddfwriaeth yn fach, bydd hwn yn cael ei adolygu un flwyddyn wedi'r dyddiad gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn wir, ac nad yw unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi dod i'r amlwg. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried data perthnasol ac adborth gan randdeiliaid; ymchwilir i unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y costau a'r buddion a brofir gan bartïon yr effeithir arnynt mewn perthynas â'r rheiny a amlinellir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn.